Gwahoddiad i dendro
Adroddiad a Hyfforddiant
Adnoddau Dynol
Mentrau Iaith Cymru

Mae Mentrau Iaith Cymru yn chwilio am gwmni allanol er mwyn cynnig:

1. Adolygiad o anghenion cefnogaeth Adnoddau Dynol y Mentrau Iaith drwy ymchwilio i'r sefyllfa bresennol

2. Ysgrifennu adroddiad gydag argymhellion o ddulliau posib i'r Mentrau symud ymlaen i bwrcasu cefnogaeth Adnoddau Dynol ar y cyd ar gyfer 2019-2020

3. Cynnal o leiaf un diwrnod o hyfforddiant i Brif Swyddogion y Mentrau Iaith ar y pwnc adnoddau dynol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad

Nod y cytundeb yw dadansoddi'r gefnogaeth Adnoddau Dynol presennol sydd gan y Mentrau Iaith, a chynnwys argymhellion fydd yn sail i symud ymlaen i bwrcasu'r gefnogaeth yma ar y cyd rhwng y Mentrau (sy'n 22 o endidau annibynnol) o 2019 ymlaen.

Dylid cwblhau'r gwaith o fewn cyfnod o **2 fis.**

Bydd y gwaith yn cael ei gydlynu gan Arweinydd Tîm Mentrau Iaith Cymru, Iwan Hywel, sydd wedi ei leoli ym mhrif swyddfa'r Mentrau yn Llanrwst.

Os oes gennych ddiddordeb i gyflawni'r gwaith uchod, gofynnir i chi gyflwyno **pris cyflawn am y gwaith**, ynghyd â **chefndir eich cwmni** a hefyd derbyn ***breakdown* o'r ffioedd** drwy nodi swm dyddiol hollgynhwysol (i gynnwys treuliau) ynghyd â **sawl diwrnod o waith** sy'n cael eu cynnig, a rhoi gwybod os ydy'ch cwmni wedi **cofrestru ar gyfer TAW** a rhoi'r manylion i gyd at ARWEINYDD TÎM MIC drwy e bost i post@mentrauiaith.cymru a hynny **erbyn 19/03/2018.**

Gobeithiwn hysbysu'r cwmni llwyddiannus erbyn 23/03/2018 gyda'r cyfarfodydd cychwynnol i drefnu'r gwaith cyn diwedd Mawrth 2018.

Os am fwy o wybodaeth gellir cysylltu â'r swyddfa ar (01492 643401) neu e bostio:
Iwan Hywel – iwanhywel@mentrauiaith.cymru

Cyflwyniad i'r Mentrau Iaith

Mae'r Mentrau Iaith yn fudiadau cymunedol, gwirfoddol a deinamig sy'n hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Cymru, ac mae Mentrau Iaith Cymru yn cefnogi eu gwaith yn genedlaethol i gynyddu'r defnydd o'r iaith yn ein cymunedau.

Gwahoddiad i dendro
Adroddiad a Hyfforddiant
Adnoddau Dynol
Mentrau Iaith Cymru

Mae 22 Menter Iaith ledled Cymru, gydag 18 o'r rhain yn endidau annibynnol sydd yn dod o dan yr adroddiad Adnoddau Dynol yma.